



Datganiad i'r wasg

24/10/2022

Uchel Lys yn datgan fod penderfyniad Cyngor Castell-nedd Port Talbot i agor ysgol enfawr newydd cyfrwng Saesneg yn "anghyfreithlon" am fethu ag asesu effaith ar addysg Gymraeg

Heddiw, dyfarnodd yr Uchel Lys yng Nghaerdydd fod Cyngor Castell-nedd Port Talbot wedi gweithredu'n anghyfreithlon pan benderfynodd sefydlu ysgol enfawr ("super-school") cyfrwng Saesneg i ddisodli tair ysgol gynradd fach yn ardal Pontardawe.

Penderfynodd y llys na all yr ysgol newydd ym Mharc Ynysderw fynd yn ei blaen ar hyn o bryd gan fod y Cyngor wedi methu ag asesu'r effaith y byddai'r cynllun yn ei gael ar ysgolion Cymraeg yr ardal yn briodol.

Mae'r dyfarniad yn dilyn cais am adolygiad barnwrol gan Rhieni Dros Addysg Gymraeg ("RhAG"). Mudiad sy'n cefnogi rhieni sy'n dymuno dewis addysg Gymraeg i'w plant ac sy'n hyrwyddo addysg Gymraeg yn gyffredinol yw RhAG. Cynhaliwyd gwrandawriad yr achos ar 18 a 19 Gorffennaf yng Nghaerdydd o flaen Mr Ustus Kerr. Proses gyfreithiol ar gyfer herio penderfyniadau cyrff cyhoeddus yw adolygiad barnwrol.

Gan gael eu cynrychioli gan gwmni cyfreithiol masnachol [Darwin Gray LLP](#) a [Gwion Lewis CB](#) o Landmark Chambers, llwyddodd RhAG i herio penderfyniad y Cyngor i agor yr ysgol newydd gan nad oedd yr ymgynghoriad statudol a'r penderfyniad dilynol o hynny yn cydymffurfio â Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru*. Penderfynodd Mr Ustus Kerr, ar ôl ystyried yr achos yn ofalus, fod y Cyngor wedi camddechongli'r Cod drwy fethu ag ystyried y byddai ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg lleol yn ysgolion a fyddai'n cael eu "heffeithio" gan yr ysgol enfawr cyfrwng Saesneg newydd.

Yn ogystal â chynnig eglurder ar ystyr y Cod, bydd y dyfarniad ag oblygiadau sylweddol ar gyfer awdurdodau lleol ledled Cymru pa bryd bynnag y byddant yn cyflwyno cynllun ar gyfer ysgolion newydd yn eu hardaloedd. Ni ddylai awdurdodau lleol barhau i ragdybio nad oes



Datganiad i'r wasg

24/10/2022

angen asesu'r effaith ar y Gymraeg os mai ysgolion cyfrwng Saesneg yn unig sydd yn cael eu sefydlu neu eu cau.

Gwrthododd Mr Ustus Kerr ymgais y Cyngor i ddadlau y byddent wedi bwrw ymlaen â'r ysgol newydd hyd yn oed pe bai asesiad effaith wedi'i wneud yn ystod yr ymgynghoriad, beth bynnag fyddai cynnwys neu ganlyniad yr asesiad wedi bod.

Dywedodd Siôn Fôn, cyfreithiwr a Chymrawd gyda Darwin Gray LLP, sy'n cynrychioli RhAG:

"Rydym yn croesawu penderfyniad yr Uchel Lys, ac yn credu y bydd dehongliad gofalus y llys o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion o fudd i awdurdodau lleol ledled Cymru. Mae'r dyfarniad yn gosod cysail clir ynghylch pryd y dylid cynnwys asesiad effaith ar y Gymraeg yn ystod proses ymgynghori statudol. Mae dyletswydd ar awdurdodau lleol i sicrhau bod y rheolau caeth sydd ynghlwm wrth ymgynghoriadau cyhoeddus yn cael eu parchu a bod yr holl faterion perthnasol yn cael eu hystyried yn llawn gan y cyhoedd fel rhan o ymgynghoriad teg.

Mae asesiadau effaith ar y Gymraeg yn helpu awdurdodau i ragweld ac yna lliniaru effeithiau andwyol posibl ar yr iaith ac felly maent yn hynod o bwysig, yn enwedig mewn ardaloedd o bwysigrwydd ieithyddol arwyddocaol fel Pontardawe."

Dywedodd Elin Maher, Cyfarwyddwr Cenedlaethol RhAG:

"Rydym wrth ein boddau gyda'r canlyniad. Mae'r cynllun wedi achosi cryn bryder i ni fel mudiad, ac yn ehangach yn y gymuned yma ym Mhontardawe, yn enwedig gan fod y Cyngor eu hunain yn cydnabod fod yr ardal yn un o bwysigrwydd ieithyddol arwyddocaol o ran y Gymraeg. Roeddem wastad o'r farn fod y Cyngor wedi methu â rhoi ystyriaeth ddigonol i effaith y penderfyniad ar ysgolion Cymraeg yr ardal. Pan godwyd y materion hyn gyda'r Cyngor, cafwyd ymateb ffyrnig a bygythiol, ac felly hoffwn ddiolch ar ran RhAG i bawb yng nghymuned ehangach Pontardawe a gefnogodd yr ymgyrch hon. Hefyd, ni allai RhAG fod wedi



Datganiad i'r wasg

24/10/2022

bod yn llwyddiannus heb Gwion Lewis CB a Darwin Gray LLP a ddarparodd gyngor cyfreithiol rhagorol ynghyd â hyblygrwydd o ran ffioedd.

Ni chynhaliodd y Cyngor asesiad effaith llawn a phriodol ar yr iaith Gymraeg ac addysg Gymraeg. Oherwydd diffyg asesiad o'r fath, a'r diffyg cydnabyddiaeth o'r bygythiad sylweddol i addysg Gymraeg yn ardal Pontardawe o ganlyniad i fethiannau'r Cyngor, bu'n rhaid i ni ymyrryd. Rydym yn hynod o falch bod y Llys wedi cyfiawnhau ein safbwynt.

Rydym yn gobeithio y bydd awdurdodau lleol yn adolygu'r dyfarniad hwn yn ofalus ac yn gwerthfawrogi pwysigrwydd cynnal asesiadau effaith ieithyddol trylwyr ar unrhyw ddatblygiadau cymunedol arfaethedig, yn enwedig ym meysydd addysg a hamdden."

Dywedodd Gwion Lewis CB, a gynrychiolodd RhAG drwy gydol yr achos:

"Mae'r dyfarniad hwn o bwysigrwydd cenedlaethol i Gymru. Mae'n datgan yn glir fod yn rhaid i gynghorau asesu'r effaith ar y Gymraeg pa bryd bynnag y bydd gwir bosibilrwydd y gallai cynllun i agor ysgol newydd effeithio un ai ar ysgolion cyfrwng Cymraeg sydd eisoes yn bodoli, neu ar hyfywedd y Gymraeg yn y gymuned. Dylai pawb sy'n ymwneud ag addysg yng Nghymru ddarllen y dyfarniad yn ofalus."

-diwedd-



Datganiad i'r wasg

24/10/2022

Nodiadau

Dyfarniad Mr Ustus Kerr 24 Hydref 2022

Adroddiad Llywodraeth Cymru 2021 – Comisiynwyd adroddiad gan Lywodraeth Cymru ar y cynllun. Roedd yr adroddiad yn beirniadu'r Cyngor, gan gasglu “...os sefydlir ysgol gynradd Saesneg fawr statws uchel newydd mewn ardal lle mae'r Gymraeg mewn cyflwr bregus, ac y gallai'r niferoedd sy'n mynychu YGG Trebannws ac YGG Pontardawe ddirywio...”. Ychwanegodd yr adroddiad nad yw dogfen ymgynghori'r Cyngor “...yn darparu asesiad llawn o effaith debygol datblygiad mawr mewn ardal sy'n sensitif yn ieithyddol”. Ceisiodd y Cyngor ymbellhau eu hunain o adroddiad Llywodraeth Cymru, gafodd ei baratoi gan arbenigwr blaenllaw o'r diwydiant, gan ei alw'n 'ddogfen o ansawdd gwael'.

*“y Cod” - Mae newidiadau yn y ddarpariaeth addysg gyhoeddus yng Nghymru yn cael eu rheoli gan Ran 3 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013. Rhaid i'r Cod a roddir gan Weinidogion Cymru gael ei ddilyn gan awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu ysgolion ac eraill sydd mewn cysylltiad â chynigion ar gyfer cynlluniau newydd. Cafodd y Cod ei ddiweddarau ym mis Tachwedd 2018. Mae hwn yn fater sydd wedi ei ddatganoli.

*CB – Cwnsler y Brenin

Cysylltiadau

Siôn Fôn – Darwin Gray LLP

sfon@darwingray.com

029 2082 9107

Elin Maher - Rhieni Dros Addysg Gymraeg

07970 340219

elin@rhag.cymru